# ACHREDIAD TAI YN GYNTAF CYMRU

## PROSIECT TAI YN GYNTAF BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH CAERDYDD

## CYNLLUN GWEITHREDU DILYNOL

### IONAWR 2022

# CYFLWYNIAD

Dylid darllen y ddogfen hon – y cynllun gweithredu dilynol – ochr yn ochr â'r adroddiad terfynol sy'n rhoi manylion yr Achrediad Tai yn Gyntaf Cymru a ddyfarnwyd i'r prosiect Tai yn Gyntaf dan ofal Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd yn haf 2021. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaed nifer o argymhellion parthed y prosiect. Dyfarnodd y Panel Achredu statws achrediad i'r prosiect yn seiliedig ar y trefniant y byddai'r argymhellion hyn yn cael eu gweithredu dros gyfnod o amser.

Yn y rhan fwyaf o achosion roedd Alex Osmond, Rheolwr Tai yn Gyntaf a Phrofiad Byw gyda Cymorth Cymru, i fod i asesu'r cynnydd o fewn cyfnod o ryw dri i chwe mis; fodd bynnag, oherwydd bod y pandemig COVID-19 yn parhau, cymerwyd agwedd hyblyg tuag at yr amserlenni hyn. Mae'r adroddiad dilynol hwn yn trafod pob argymhelliad yn ei dro, yn seiliedig ar sgyrsiau gyda, a dogfennau a ddarparwyd gan, Cath Docherty, Rheolwr Prosiect y gwasanaeth yng Nghaerdydd. Ailymwelir â'r achrediad ei hun yn y dyfodol, yn unol â'r broses ddogfennol a ddatblygwyd.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau at HousingFirst@cymorthcymru.org.uk.

| Gweithred | Y canlyniad gwreiddiol | Y sefyllfa ar hyn o bryd | Nodiadau a’r camau nesaf |
| --- | --- | --- | --- |
| 1. Sicrhau bod dogfennaeth y prosiect yn gwbl gyfredol ac yn adlewyrchu Tai yn Gyntaf yn benodol lle bo angen. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd; Rheolwr TyG Byddin yr Iachawd-wriaeth Caerdydd i rannu’r dogfennau. | Wrth i’r broses achredu fynd yn ei blaen, cafodd nifer o ddogfennau eu diweddaru a’u gwella – yn fwyaf arwyddocaol, datblygwyd diweddariad i fanyleb y gwasanaeth. | Er y dylai’r ddogfennaeth barhau i gael ei hadolygu a’i diweddaru, i bwrpas yr achrediad yma gellir ystyried bod yr argymhelliad hwn bellach yn gyflawn. |
| 2. Parhau i sicrhau bod perthnasoedd rhwng y darparwr cymorth a chynrychiolwyr cymdeithasau tai yn parhau’n gryf, a bod gwersi’n cael eu dysgu o ganlyniad i broblemau difrifol. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae cyfarfodydd o’r Grŵp Llywio sy’n ymwneud â’r darparwr cymorth a chynrychiolwyr o wahanol gymdeithasau tai wedi ailddechrau, ac yn cael eu cynnal yn gyson. Mae’r berthynas rhwng staff cymdeithasau tai a staff rheng flaen Tai yn Gyntaf, yn arbennig, yn cael ei chryfhau’n sylweddol. Mae problemau’n rhoi cyfleoedd i ddysgu, fel yr argymhellwyd. Mae achosion diweddar o Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, er enghraifft, wedi bod yn ganolog i’r trafodaethau rhwng dwy ‘ochr’ y dull Tai yn Gyntaf. Wedi dweud hynny, ni chafwyd unrhyw broblemau difrifol ers i’r achrediad gael ei gynnal. | Mae hwn yn waith parhaus, a gall Cymorth a Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd gadw mewn cysylltiad i drafod cynnydd. Mae Rheolwr Tai yn Gyntaf Byddin yr Iachawdwriaeth hefyd yn ymrwymo i ddefnyddio’r ddogfen ‘gwersi a ddysgwyd’, a ddatblygwyd yn ddiweddar, o fewn cyd-destun y Grŵp Llywio. |
| 3. Sicrhau bod prynu-i-mewn i Tai yn Gyntaf, a dealltwriaeth ohono, yn cael ei ddatblygu mewn partneriaid, ond yn arbennig felly mewn Cymdeithasau Tai. Gweithio i sicrhau bod prynu-i-mewn yn parhau’n gryf yn dilyn problemau difrifol. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Gweler argymhelliad 2, uchod. | |

| Gweithred | Y canlyniad gwreiddiol | Y sefyllfa ar hyn o bryd | Nodiadau a'r camau nesaf |
|---|---|---|---|
| 4. Sicrhau bod rolau swyddogion tai, swyddogion cymorth tenantiaeth, a gweithwyr cymorth, yn cael eu diffinio'n glir a bod perthynas gref rhyngddynt. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, yn ogystal â'r un cyntaf - oedd yn ffocysu ar ddatblygu dogfennaeth - mae dogfennau canllawiau ar gyfer rolau wedi cael eu datblygu ymhellach, i amlinellu'n gliriach y gwahanol rolau sy'n rhan o ddarpariaeth Tai yn Gyntaf. | Mae hwn yn waith parhaus, ond yng nghyd-destun yr achrediad hwn, gellir ystyried ei fod yn gyflawn. |
| 5. Sicrhau bod y rhesymau dros wrthod darpar gleient ar lefel Grŵp Llywio yn gadarn ac yn cael eu dogfennu a'u hadolygu. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Nid oes unrhyw gleientiaid wedi cael eu troi i ffwrdd o'r prosiect ers cynnal y broses achredu, fel y nodwyd yn glir yng nghofnodion y Grŵp Llywio. | Mae Rheolwr TyG Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod mynediad i TyG ar gael i'r rhai sydd ei angen, a bod hyn yn cael ei ddogfennu'n glir. |
| 6. Parhau i sicrhau bod y cyfnod pontio rhwng staff allgymorth a gweithwyr cymorth yn cael ei reoli mewn modd meddylgar a gofalus. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae'r prosiect bellach yn pwysleisio 'dull tîm cyfan' yng nghyd-destun cymorth. Mae hyn yn caniatáu cleientiaid i adeiladu perthynas gref gyda staff, ond mae hefyd yn lleihau'r pwysau ar weithwyr unigol. Ymddengys fod hyn wedi gweithio'n dda, gan alluogi cleientiaid i ymddiried yn y tîm cyfan yn ogystal ag yn y gweithiwr cymorth a aseiniwyd iddynt. | Mae'n bosib y bydd angen datblygu'r 'dull tîm cyfan' wrth i'r amser fynd yn ei flaen, a dylai rheolwyr y prosiect fod yn ymwybodol o hyn, ond i bwrpas yr achrediad yma, gellir ystyried bod yr argymhelliad hwn yn gyflawn. |
| 7. Sicrhau bod y dull o ymgysylltu gweithredol yn cael ei ddogfennu'n llawn, p'un ai yn y fanyleb gwasanaeth neu mewn polisïau ar wahân. | Rheolwr TyG Byddin yr Iachawd-wriaeth Caerdydd i rannu dogfen-naeth pan fydd yn gyflawn. | Yn ystod y broses achredu, aeth y prosiect ati i ddatblygu dogfennaeth yn ffocysu'n benodol ar yr ymgysylltiad gweithredol a'r allgymorth grymusol a weithredir gan y staff. | Dylai pob dogfennaeth fod yn amodol ar gael eu hasesu a'u hadolygu'n barhaus, ac ni ddylai unrhyw ddogfennau sy'n ffocysu ar allgymorth grymusol gael eu trin yn wahanol. Fodd bynnag, i bwrpas yr achrediad yma, gellir ystyried bod yr argymhelliad hwn yn gyflawn. |

| Gweithred | Y canlyniad gwreiddiol | Y sefyllfa ar hyn o bryd | Nodiadau a'r camau nesaf |
|---|---|---|---|
| 8. Adlewyrchu ar yr ieithwedd grefyddol yn nogfennaeth Tai yn Gyntaf, ac ystyried sut y gallai gael ei dehongli gan gleientiaid a rhanddeiliaid eraill, gan atgyfnerthu negeseuon cynhwysol lle bo'n briodol. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae newid iaith sylfaenol y sefydliad ehangach y tu allan i gylch gwaith y broses achredu. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi gwneud ymrwymiad gweithredol i sicrhau nad yw gweithdrefnau *lleol* a dogfennaeth sy'n perthyn yn benodol i brosiect Caerdydd yn cynnwys unrhyw ieithwedd grefyddol, a bod pwyntiau o wahaniaeth yn cael eu nodi.<br><br>Mae Cynllun Gweithredu EDI ehangach hefyd yn cael ei ddatblygu, gyda'r nod o feithrin cynhwysiant o fewn y prosiect, ac i ddatblygu arbenigeddau cysylltiedig ymhlith y staff. | Mae hwn yn argymhelliad holl bwysig a pharhaus, a gallai ei nodi fel 'wedi'i gwblhau' fod yn annoeth. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg bod staff y prosiect wedi ymrwymo i gael datblygiad yma.<br><br>Dylid cadw mater cynhwysiant gweithredol ar flaen meddwl aelodau'r tîm, ac mae yna ymrwymiad i hyn hefyd. |
| 9. Sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau'n ymwneud â chogio a llinellau sirol yn cael eu rhannu rhwng yr holl randdeiliaid. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae dogfen a ddatblygwyd i esbonio peryglon cogio a llinellau sirol, wedi eu hanelu'n benodol at gleientiaid, wedi cael ei rhannu gydag aelodau'r Grŵp Llywio.<br><br>Mae 'rhestr wirio' ar wersi a ddysgwyd hefyd yn cael ei datblygu. | Pe bai rhagor o ddigwyddiadau'n codi eto, dylid rhannu gwersi gyda'r bobl briodol.<br><br>**Gweithredu: Rheolwr TyG Caerdydd i gwblhau'r daflen wirio; dilyn i fyny ymhen 3 mis.** |
| 10. Hybu cyfeiriadau at nodweddion gwarchodedig a rhywedd ym mhob dogfennaeth, yn enwedig mewn perthynas â chymorth, trwy eu rhestru'n llawn. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd; Rheolwr TyG Byddin yr Iachawd-wriaeth Caerdydd i rannu dogfen-naeth. | Wrth gynnal y broses achredu, cafodd dogfennaeth ei newid i gynnwys y nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau bod eu pwysigrwydd yn cael eu nodi'n glir. | Dylai nodweddion gwarchodedig gael eu cymryd i ystyriaeth yn ystod ymarfer o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn dangos nad dyma oedd yn digwydd. Roedd yr argymhelliad hwn yn ffocysu ar fater o ddogfennaeth, ac o ganlyniad gellir ystyried ei fod yn gyflawn. |

| Gweithred | Y canlyniad gwreiddiol | Y sefyllfa ar hyn o bryd | Nodiadau a'r camau nesaf |
|---|---|---|---|
| 11. Sicrhau bod y prosiect yn diogelu ei weithgareddau dargyfeiriol ardderchog, hyd yn oed yng ngoleuni COVID. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae'r gwaith datblygu ar 'fwthyn gweithgaredd' wedi cael ei gwblhau. Mae yna hefyd fwrdd gweithgareddau yng nghyntedd y prosiect, sydd wedi galluogi staff i fod yn fwy rhagweithiol wrth rannu gweithgareddau cymunedol. | Mae hon yn weithred barhaus sy'n adlewyrchu ansawdd a chryfder gwaith y prosiect yn y maes hwn, a'r peryglon a achoswyd mewn rhaglenni o'r fath yn sgil y pandemig COVID.<br><br>Oherwydd hynny, mae lle yma i weithredu dilynol.<br><br>**Gweithredu: Alex i ddilyn i fyny ymhen 3 mis.** |
| 12. Dylai Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd, pan yn gweithio gyda phartneriaid allanol, barhau i wneud yr achos dros Tai yn Gyntaf, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r prosiect a hyrwyddo'r model i sicrhau bod cleientiaid Tai yn Gyntaf yn cael blaenoriaeth ar gyfer tai a chymorth. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae aelodau o'r tîm wedi bod yn mynychu grwpiau seneddol traws-bleidiol i bwysleisio pwysigrwydd y model TyG yng Nghymru. Mae Rheolwr TyG Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd wedi parhau i fynychu'r Grwpiau Hollbleidiol Seneddol i wneud yr un peth.<br><br>Hefyd, mae arfer da a datblygiad y model i'w weld yn glir yn y modd mae'r prosiect yn gweithio gyda darparwyr TyG eraill – yn yr achos hwn, The Wallich – i rannu gwersi a ddysgwyd am leihau niwed fel un agwedd o Tai yn Gyntaf.<br><br>Mae partneriaid allanol allweddol yn parhau i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Llywio, ac mae'r llwybr atgyfeirio yn cael ei ddatblygu. | Bydd Rheolwr TyG Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd ac aelodau o'r tîm yn parhau i hyrwyddo TyG yn y fforymau priodol.<br><br>**Gweithredu: Alex i ddilyn i fyny ymhen 3 mis.** |

| Gweithred | Y canlyniad gwreiddiol | Y sefyllfa ar hyn o bryd | Nodiadau a'r camau nesaf |
|---|---|---|---|
| 13. Dylai'r prosiect wrthwynebu pan fo trafodaethau, yn enwedig gyda chomisiynwyr, yn crwydro oddi wrth egwyddorion Tai yn Gyntaf, o bosib yn sgil COVID. Unwaith eto, rhaid cyflwyno'r achos dros Tai yn Gyntaf, a defnyddio tystiolaeth o'r prosiect i hybu defnydd o'r model. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae llawer o'r gweithgareddau a drafodwyd fel rhan o argymhelliad 12, uchod, yn cefnogi'r argymhelliad hwn.<br><br>Yn nhermau mwy o hyrwyddo Tai yn Gyntaf fel model, mae Rheolwr TyG Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd, a'r tîm, wedi chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ymgyrch Nadolig, yn ffocysu ar gleient Tai yn Gyntaf a'i stori. Bydd yr ymgyrch hon yn cael ei hyrwyddo'n genedlaethol ar draws y cyfryngau cymdeithasol, a dylai helpu i gryfhau'r ddealltwriaeth o effeithiolrwydd y model TyG.<br><br>Dylid nodi hefyd fod Cadeirydd presennol y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, Rheolwr TyG Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd, sef Cath Docherty, yn aml yn ymgysylltu ag agenda Llywodraeth Cymru ac yn arwain trafodaethau sy'n holl bwysig i ddatblygiad Tai yn Gyntaf ledled Cymru. | Gweler argymhelliad 12, uchod.<br><br>Dylai'r prosiect barhau i eiriol dros bwysigrwydd cadw'n ffyddlon i'r model. |
| 14. Parhau i adeiladu a chynnal perthnasoedd ardderchog gyda phartneriaid nad ydynt ym maes tai, gan annog ymrwymiad strategol a systemig i ddarparu cymorth aml-asiantaeth i gleientiaid Tai yn Gyntaf. | Dilyn i fyny ymhen ychydig fisoedd. | Mae staff y prosiect wedi parhau i ddatblygu perthnasoedd gydag ystod o randdeiliaid, yn ogystal â chryfhau perthnasoedd sy'n bodoli eisoes.<br><br>Un enghraifft o hyn yw'r ymgysylltiad gyda thîm arbenigol y Gwasanaeth Feirws a Gludir yn y Gwaed yn Ysbyty Prifysgol Cymru, lle mae un o'u haelodau'n ddiweddar wedi mynychu cyfarfodydd o dîm y prosiect yn ogystal â chyfarfodydd o'r Grŵp Llywio.<br><br>Yn yr un modd, mae partneriaeth gref wedi ei datblygu gyda Dyfodol (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau) a staff awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o ddarparu dull mwy cydlynus ac integredig o adnabod atgyfeiriadau posibl; mae hyn hefyd yn gydnaws â'r syniad o gymryd agwedd fwy cynhwysol tuag at asesu. | O ystyried natur Tai yn Gyntaf, a'r ffaith ei fod yn dibynnu ar sefydliadau ac asiantaethau y tu hwnt i faes tai, ni ellir ystyried bod yr argymhelliad hwn byth yn gwbl gyflawn. Wedi dweud hynny, mae'r ymrwymiad a ddangoswyd gan dîm y prosiect hyd yma yn awgrymu y bydd y perthnasoedd yn parhau i gryfhau, a rhai newydd yn parhau i ffurfio.<br><br>**Gweithredu: Rheolwr TyG Byddin yr Iachawdwriaeth Caerdydd i rannu'r dogfennau perthnasol a deunyddiau ymgyrch y Nadolig gydag Alex.** |